Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanddoged
# Llanddoged
# Llanrwst
# Conwy
# LL26 0BJ

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanddoged

Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys Yng Nghymru yw Ysgol Llanddoged, sydd wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanddoged. Cymraeg yw prif gyfrwng yr ysgol. Mae 44 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 4 oed meithrin rhan-amser. Fe'i rhennir yn dri dosbarth oedran cymysg.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol. Mae tua 66% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 33% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn mis Medi 1996 ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth a'r staff yn llwyddo i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion ac yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch ac aeddfedrwydd.

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu bwrpasol. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr a chyffrous; fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf o'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn canmol yr ethos cartrefol sy'n bodoli. Fodd bynnag, nid yw prosesau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni yn ddigon effeithiol. Nid yw'r arweinyddiaeth yn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r addysgu yn ymestyn disgyblion o bob gallu fel eu bod yn cyflawni gorau y gallent. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol, ond nid ydynt yn herio'r ysgol fel cyfeillion beirniadol yn ddigon cadarn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a gwella cyflwyniad eu gwaith

A2 Cynllunio'n fwy bwriadus er mwyn sicrhau gweithgareddau addas ar gyfer yr holl ystod gallu a sicrhau bod yr addysgu yn darparu tasgau heriol i ymateb i anghenion pob disgybl

A3 Gwella trefniadau cyfathrebu rhwng yr ysgol a rhieni

A4 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu'n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol a herio perfformiad yr ysgol

A5 Mireinio trefniadau hunanarfarnu i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn rhan o'r broses a bod blaenoriaethau'r cynllun datblygu wedi eu seilio'n fwy penodol ar y canfyddiadau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion uwch eu gallu yn cyflawni cystal ag y dylent.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwrando'n astud ac yn trafod eu gwaith yn hyderus. Maent yn ymateb yn ddeallus i gyfarwyddiadau a chwestiynau gan y staff. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau yn frwdfrydig. Maent yn trafod eu gwaith am yr 1960au a'u hymweliad i'r Ysgwrn yn wybodus gan ddefnyddio geirfa amrywiol a diddorol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn Mlwyddyn 2 yn darllen testunau syml yn eithaf clir ac yn darllen yn annibynnol yn hyderus. Maent yn deall ac yn ymateb yn syml a gwybodus i'r stori 'Ar Wib'. Mae llawer â dealltwriaeth o beth yw odli ac yn rhoi enghraifftiau addas. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn fwyfwy rhugl ac yn ailadrodd storïau'n hyderus. Maent yn cyfeirio at yr hyn y maent yn ei hoffi am y llyfr gan roi rhesymau da am eu dewisiadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn gywir a rhugl, gyda dealltwriaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a chymeriadau o'u llyfrau yn wybodus. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn wybodaeth dda am ystod o lyfrau ac awduron gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae eu portread i ddathlu penblwydd T Llew Jones yn dangos diddordeb amlwg yn ei waith. Maent yn defnyddio eu medrau yn dda i ganfod gwybodaeth o amryw ffynhonnell, er enghraifft yn eu gwaith am Y Rhyfel Byd Cyntaf a natur partïon yn yr 1960au.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn gywir. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o eirfa, ac maent yn dechrau defnyddio atalnodi sylfaenol yn eu gwaith yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu darnau diddorol, er enghraifft am ymweliad i dŷ nain.

Mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n briodol. Maent yn ysgrifennu i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu fel storïau, dyddiaduron a llythyron er enghraifft llythyr i olygydd papur newydd, a gwybodaeth am y 'Welsh Not'. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio priflythyren, gofynnod ac atalnod llawn yn gyson gywir ar y cyfan, ac erbyn diwedd y cyfnod, yn defnyddio collnod a dyfynodau yn effeithiol pan fo'u hangen. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol yn rhwydd nac yn estynedig yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion bob amser yn daclus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn effeithiol mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu a lluosi syml yn llwyddiannus wrth gymhwyso eu medrau i ddatrys problemau. Maent yn defnyddio offer ac unedau mesur ansafonol a safonol yn fedrus mewn amrywiaeth o dasgau. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn datrys problemau siâp wrth ddefnyddio siapau amrywiol i greu brechdanau i'r Gryffalo. Gallant gasglu, cofnodi a chyflwyno data syml yn gywir, er enghraifft wrth lunio graff i gofnodi nifer y bechgyn a merched sydd yn y dosbarth. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y meysydd dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau rhif amrywiol yn llwyddiannus er mwyn cyfrifo. Maent yn barod iawn i gynnig atebion, gan rannu eu canfyddiadau yn hyderus, a defnyddio termau mathemategol cywir. Mae medrau mathemateg y pen y disgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Maent yn defnyddio gwahanol strategaethau i atgyfnerthu bondiau rhif a ffeithiau rhif yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn casglu a defnyddio data yn dda gan gymhwyso'u gwybodaeth mewn tasgau diddorol, er enghraifft wrth gymharu cynhyrchiant llaeth gwartheg godro. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio offer ac unedau mesur yn hyderus. Mae eu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau yn gadarn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau TGCh y disgyblion yn foddhaol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus wrth brosesu geiriau ac ychwanegu llun wrth gyflwyno gwybodaeth. Maent yn fedrus wrth drin data syml ar ffurf pictogram ac wrth ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Fodd bynnag, prin yw'r defnydd a wnant o gymhwyso'r ystod eang o fedrau TGCh yn eu gwaith.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn hyderus i gyflwyno'u gwaith, er enghraifft wrth baratoi gwybodaeth am Lloyd George a Hedd Wyn. Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn defnyddio fformiwla yn fedrus yn eugwaith thema i greu taenlen i weld pwy fyddai'n cael ei dderbyn i'r fyddin. Mae bron pob disgybl yn hyderus wrth chwilio ar y we am wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r themâu y maent yn eu hastudio. Mae medrau'r disgyblion mewn codio a chynhyrchu a defnyddio modelau i greu siapau yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, anghyson yw'r defnydd a wneir o fedrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda am gyfnodau hir. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn llwyddo yn eu tasgau. Mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn â'u cyfoedion ac yn dangos parch at farn eraill. Yn ystod gwersi, maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn disgwyl yn amyneddgar i gyfrannu. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn effeithiol iawn.

Mae ymddygiad bron pob disgybl tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn ardderchog. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch. Mae'r disgyblion hŷn yn gofalu am y rhai llai ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o

ddifrif. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at nifer o elusennau sy'n bwysig iddynt, er enghraifft diwrnod trwynau coch a'r hosbis leol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bwyta ac yfed a phwysigrwydd cadw'n heini. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfrannu'n dda i'w dysgu, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, er enghraifft chwaraeon ac eisteddfodau. Maent yn ymfalchïo mewn perfformio'n greadigol o flaen disgyblion eraill, er enghraifft i ddathlu diwrnod yr awdur T Llew Jones.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu bwrpasol. Mae hyn yn eu galluogi i roi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda ac fe reolir ymddygiad yn effeithiol. Defnyddia'r staff fodelau iaith da sy'n hybu medrau cyfathrebu'r disgyblion. Mae hyn yn arwain at safonau dwyieithrwydd cadarn erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr a chyffrous sy'n sbardun i'r gwaith thema. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gadarn, er mai prin yw'r cyfleoedd iddynt ysgrifennu yn estynedig ac annibynnol. Er bod cynlluniau manwl ar gael ar gyfer rhifedd a TGCh, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella. Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau addysgu ac yn rhannu amcanion dysgu priodol i sicrhau pwrpas clir i'r gwersi. Er hynny, nid yw lefel yr her, a natur y tasgau, bob amser yn cyfateb yn ddigon da i anghenion disgyblion. Mae tuedd hefyd i nifer o weithgareddau'r disgyblion fod yn or-ddibynnol ar gyfarwyddyd oedolion sy'n llesteirio gallu'r disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ac yn eu holi'n effeithiol i archwilio'u dealltwriaeth. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu. Mae llawer o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ond anaml ceir sylwadau sy'n galluogi disgyblion i ddeall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn defnyddio adborth ysgrifenedig fel mater o drefn i wella'u gwaith yn effeithiol. At ei gilydd, nid yw athrawon yn cynnwys disgyblion yn ddigonol wrth asesu eu cynnydd eu hunain neu gynnydd disgyblion eraill.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion y Siarter Iaith. Mae datblygu agweddau o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r staff yn modelu iaith yn effeithiol ac mae hyn yn cryfhau medrau llafar y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol y disgyblion yn enwedig y rhai o gefndiroedd di-Gymraeg. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ymwelwyr, er enghraifft beirdd, cantorion ac artistiaid, sy'n

cyflawni gwaith gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u Cymreictod. Mae'r ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, sy'n cynnwys ymweliadau amrywiol yn yr ardal leol a thu hwnt, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol.

Mae clwb 'Doged' ar ôl ysgol yn boblogaidd iawn gyda rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ei fynychu. Mae'n cynnig profiadau cyfoethog ac yn cyfrannu'n dda iawn at safonau lles y disgyblion, er enghraifft wrth iddynt baratoi bwyd ar gyfer ymweliad gan Esgob Llanelwy.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau ethos gofalgar, cynhwysol a hapus i'r holl ddisgyblion ac yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol ar gyfer ei disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac maent yn gofyn am gyngor a chymorth arbenigwyr pan fo angen er mwyn eu cynorthwyo â'u datblygiad academaidd ac emosiynol. Maent yn cynhyrchu cynlluniau unigol meintiol sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygiad yr unigolyn ac yn sicrhau lefel briodol o gefnogaeth iddynt. Mae'r staff yn darparu cymorth sy'n cyfateb yn dda i anghenion a galluoedd y disgyblion sydd angen cymorth pellach, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol drwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a digwyddiadau sy'n hyrwyddo'r celfyddydau creadigol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau diddorol i ddisgyblion gydweithio â beirdd, perfformwyr ac artistiaid adnabyddus. Mae hyrwyddo egwyddorion cyfle cyfartal a thegwch at bawb yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn, ac mae hyn yn cael dylanwad amlwg ar ymddygiad disgyblion.

Mewn sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol, mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae ymroddiad yr ysgol i hyrwyddo chwaraeon yn ystod clwb 'Doged' yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ffitrwydd disgyblion cyfnod allweddol 2. Mae negeseuon cyson ar sut i ddefnyddio'r we yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o sut i gadw'n ddiogel.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch hiliol yn effeithiol. Mae cyfeillion yr ysgol yn weithgar iawn drwy godi arian i gyfoethogi adnoddau fel cyfarpar TGCh a gwella'r ardal allanol i'r cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, nid yw prosesau cyfathrebu'r ysgol â'r cartref yn ddigon effeithiol. Nid yw rhieni yn cael gwybodaeth ddigonol am, er enghraifft, bolisi'r ysgol ar ymddygiad, a gwaith cartref.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno gweithdrefnau priodol i olrhain cynnydd y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw defnydd athrawon o ganfyddiadau'r gweithdrefnau hyn yn ddigon trylwyr i adnabod anghenion disgyblion a gosod targedau digon perthnasol a heriol iddynt.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth addas am gyrhaeddiad eu plant ym mhob maes, ond nid ydynt yn cyfeirio'n ddigon manwl at yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae'r pennaeth a'r staff yn llwyddo i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion. Mae'r staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae nifer o strategaethau diweddar bellach ar waith, fel datblygu medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion a gwella trefniadau asesu ar gyfer dysgu ond nid ydynt hyd yma wedi cael effaith lawn ar waith yr ysgol. Nid yw'r arweinyddiaeth wedi sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymestyn disgyblion o bob gallu fel eu bod yn cyflawni yr hyn y gallent.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol. Yn ddiweddar, mae ychydig ohonynt wedi dechrau cymryd rhan mewn teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau disgyblion. Fodd bynnag, maent yn or-ddibynnol ar wybodaeth gan y pennaeth ac nid ydynt yn herio'r ysgol fel cyfeillion beirniadol yn ddigon cadarn. Nid ydynt wedi llwyddo i osod cyfeiriad strategol ddigon clir i'r ysgol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, a baratowyd cyn yr arolygiad, yn cynnig barn amlwg am safonau, lles ac agweddau at ddysgu. Fodd bynnag, mae'n rhy ddisgrifiadol mewn mannau, ac nid yw'n rhoi darlun digon clir o'r agweddau pwysig sydd angen eu gwella o ran y ddarpariaeth a'r addysgu. Mae arweinwyr yn dadansoddi canlyniadau profion y disgyblion yn ffurfiol ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 ac maent yn rhoi darlun clir o batrymau mewn perfformiad. Fodd bynnag, ni wneir digon o ddefnydd o arsylwadau gwersi a chraffu ar samplau o waith y disgyblion wrth arfarnu perfformiad, diwygio cynlluniau a gosod targedau heriol. Nid yw'r staff yn chwarae rhan ddigon gweithredol yn y broses o arfarnu gwaith yr ysgol ac, o ganlyniad, nid yw eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella yn ddigon cadarn.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar godi safonau disgyblion. Mewn sawl blaenoriaeth, mae'r camau gweithredol yn rhy niferus ac nid ydynt yn cyfeirio'n glir at yr hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella. Nid yw'r cyswllt rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol bob amser yn amlwg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol ag ysgolion eraill. Trwy hyn, mae cyfleoedd gwerthfawr i aelodau'r staff rannu profiadau ac arfer dda i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae gwaith diweddar o gynllunio ar gyfer y medrau yn rhoi gwell arweiniad i athrawon ar sut i'w datblygu mewn meysydd dysgu gwahanol.

Mae'r staff yn defnyddio adnoddau'n effeithlon i gyfoethogi'r cwricwlwm ymhob maes. Mae gwariant wedi ei gysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r cynllun gwella a chaiff y cyllid ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau'r defnydd gorau ohono. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion yn ddarbodus i wella medrau darllen yr ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2017